RHWYDWAITH TAI'N GYNTAF CYMRU



# TAI YN GYNTAF ADRODDIAD YMARFER GORAU

## DYSGU GAN BROSIECTAU YN EU BLWYDDYN GYNTAF

TACHWEDD 2020

cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

# CYFLWYNIAD

**Fel rhan o ffocws Cymorth Cymru ar Tai yn Gyntaf yng Nghymru, byddwn yn rhyddhau cyfres o adroddiadau ymarfer gorau, gan ganolbwyntio ar wahanol gamau o gylchred bywyd prosiectau. Mae'r adroddiad hwn yn ffocysu ar y flwyddyn gyntaf o brosiect Tai yn Gyntaf.**

Er mwyn casglu enghreifftiau o ymarfer da yn ystod blwyddyn gyntaf prosiect Tai yn Gyntaf, aethom ati i rannu arolwg ar-lein gyda gwahanol ymarferwyr Tai yn Gyntaf sydd wedi ymgysylltu â'r Rhwydwaith Tai yn Gyntaf. Derbyniwyd pedwar ymateb manwl, pob un oddi wrth unigolyn ar lefel uchel mewn gwahanol sefydliad neu brosiect.


Dylid nodi bod y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn wedi ei gyflawni cyn dechrau'r pandemig COVID. Wrth i'r sefyllfa esblygu, daeth yn glir fod deall beth yw Tai yn Gyntaf, a sut y gall weithio'n effeithiol yn unol â'i egwyddorion, yn bwysicach nag erioed i Gymru. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canllaw ymarfer da rydym wedi ei gyhoeddi mewn perthynas â COVID-19: 'Tai yn Gyntaf yn y Gymru COVID ac ôl-COVID'.

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn trafod heriau allweddol a galluogwyr sy'n gysylltiedig â blwyddyn gyntaf prosiect Tai yn Gyntaf, yn ogystal ag yn amlygu ymarfer da yng nghyd-destun ystod o randdeiliaid, yn amrywio o Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol, i'r darparwyr cymorth eu hunain.

# CANFYDDIADAU

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn nodi canfyddiadau'r arolwg.

## PA MOR DDA OEDD PETHAU WEDI MYND YN YSTOD BLWYDDYN GYNTAF EICH PROSIECT TAI YN GYNTAF?




## BETH ALLAI FOD WEDI CAEL EI WNEUD YN WAHANOL?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a fydden nhw wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol, o ystyried beth maen nhw'n ei wybod nawr am y flwyddyn gyntaf o weithredu.

Roedd y themâu allweddol yn cynnwys:

Diffyg argaeledd tai, a'r angen am ragor o fuddsoddiad ariannol i sicrhau llety o ansawdd gwell yn y sector rhentu preifat, a gwneud hynny mewn modd effeithiol. I ryw raddau, mae'r ffactorau hyn y tu allan i reolaeth y timau Tai yn Gyntaf, ond mae'n arwyddocaol fod y mater yn cael ei godi mor aml.

Awgrymodd un sefydliad y byddent, yn y dyfodol, yn creu lòg i gadw cofnod o wersi allweddol a ddysgwyd (er enghraifft, rhoi sigaréts i'w smygu gyda darpar gleientiaid, a chael system ar-alw i ddarparu cymorth 24/7; cael fan ar gyfer y tîm).

## HERIAU ALLWEDDOL

Holwyd yr ymatebwyr ynghylch yr heriau allweddol roeddent yn eu hwynebu yn ystod y flwyddyn gyntaf o redeg prosiect Tai yn Gyntaf. Roedd yr heriau allweddol a nodwyd ar draws yr ymatebion yn cynnwys:

- Argaeledd eiddo, a diffyg cyflenwad o dai addas
- Adeiladu prynu-i-mewn a datblygu perthynas o ymddiriedaeth gyda chleientiaid, darparwyr tai a rhanddeiliaid eraill
- Recriwtio staff priodol
- Mae'r arfer a elwir yn 'cuckooing' a llinellau sirol yn achosi problemau i gleientiaid
- Roedd un ymateb yn trafod yr heriau o ran daearyddiaeth a chysylltiadau trafnidiaeth yn yr ardal leol, sy'n hynod wledig, gyda gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus gwael – mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r cleientiaid, ac mae costau ad-dalu lwfans milltiroedd yn uchel.

## GALLUOGWYR ALLWEDDOL

Yn yr un modd, gofynnwyd i ymatebwyr nodi galluogwyr allweddol (hynny yw, penderfyniadau, pobl, polisïau neu strwythurau a gafodd effaith gadarnhaol) ar gyfer blwyddyn gyntaf y prosiect Tai yn Gyntaf. Y galluogwyr allweddol oedd:

- Llwyddiant wrth recriwtio'r staff cymorth cywir, sicrhau eu bod yn deall yr egwyddorion a bod ganddynt yr offer angenrheidiol i wneud y gwaith; sicrhau bod gan yr aelodau hynny o'r staff y ffocws 'beth-bynnag-sydd-ei angen' o ran cael atebion, a'u bod yn gallu negodi'n dda gyda landlordiaid.
- Cael y tîm cyfredol cywir, a pherthnasoedd rheng-flaen cyfredol, yn ogystal â pherthnasoedd cyfredol gyda chomisiynwyr.

## PA MOR ANODD OEDD YR EGWYDDORION

Holwyd ymatebwyr ynghylch pa mor anodd yn eu canfyddiad hwy oedd gweithredu egwyddorion Tai yn Gyntaf, fel y datblygwyd hwy gan y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf. Roedd pob un wedi graddio'r pwynt yma fel 'canolig', mewn graddfa 1-5: Anodd iawn, anodd, canolig, hawdd, hawdd iawn.

Holwyd ymatebwyr a oedd unrhyw egwyddorion yn sefyll allan fel rhai arbennig o anodd, neu arbennig o hawdd, i'w gweithredu.

Dywedodd un ymatebydd y gallai'r cyd-destun ar y pryd wneud gwahanol egwyddorion yn haws neu'n fwy anodd. Manylwyd ar hyn mewn ymateb arall oedd yn dweud rhywbeth tebyg.

Yn achos yr ymatebydd hwn, **y prif rwystr oedd cael gafael ar lety digonol a fforddiadwy yn yr ardaloedd o ddewis y cleientiaid**. Yn bur aml, rhaid rheoli disgwyliadau, a dylai aelodau o'r tîm gyfathrebu mewn ffordd onest gyda'r cleientiaid ar y mater hwn.

Gwnaeth un ymatebydd y sylw fod gweithredu Egwyddor 10, sy'n cyfeirio at **randdeiliaid allanol megis yr heddlu, timau iechyd meddwl, cynrychiolwyr iechyd a gweithwyr camddefnyddio sylweddau**, yn arbennig o anodd.

## PA UN PETH ALLAI LLYWODRAETH CYMRU EI WNEUD I SICRHAU BOD BLWYDDYN GYNTAF PROSIECT TAI YN GYNTAF YN HAWS?

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi un peth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod blwyddyn gyntaf darpariaeth Tai yn Gyntaf yn haws. Gofynnodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr am ariannu cynaliadwy dros dymor hirach a fyddai'n para am fwy na deuddeg mis. Dywedodd yr ymatebwyr y byddai hyn yn dod ag ystod o fuddion yn ei sgil:

- Byddai'n help i gadw staff ac yn dangos ymrwymiad i ddarparwyr.
- Byddai hefyd yn annog dyrannu llety, a gorfodi cryfach o ran cynigion gan ddarparwyr tai.
- Gallai wella ymgysylltiad cleientiaid.

Gwnaeth ymatebwyr y sylw, pan fo landlordiaid cymdeithasol a landlordiaid PRS yn ymgysylltu â chynllun prydlesu i gartrefu tenantiaid Tai yn Gyntaf, mae'n lleihau unrhyw bryder y gallai landlordiaid preifat fod yn ei deimlo ynghylch y model. O ganlyniad, dylai Llywodraeth Cymru weithio i ehangu ei system cynllun prydlesu.

## PA UN PETH ALLAI COMISIYNWYR EI WNEUD I SICRHAU BOD BLWYDDYN GYNTAF PROSIECT TAI YN GYNTAF YN HAWS?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr enwi un peth y gallai comisiynwyr ei wneud i sicrhau bod blwyddyn gyntaf darpariaeth Tai yn Gyntaf yn haws. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys ailadrodd pwyntiau a wnaed eisoes ynghylch dulliau mwy cynaliadwy o ariannu dros gyfnod hirach – yn enwedig ariannu sy'n ymestyn dros gyfnodau hirach nag un flwyddyn. Mae hirhoedledd a diogelwch y dull o ariannu yn effeithio'n uniongyrchol ar gadw staff ac ar eu morâl, felly rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r mater hwn.

Pan gaiff cynlluniau Tai yn Gyntaf eu comisiynu, mae angen i'r cyllid a'r capasiti fod ar gael i ddarparu cymorth trawma-wybodus i staff, er mwyn mynd i'r afael â thrawma dirprwyol posib. Yn ogystal, dylai comisiynwyr weithio gyda phartneriaid lleol i sicrhau bod prosesau dyrannu yn galluogi mynediad at dai cymdeithasol, yn ogystal â gweithio gyda'r landlordiaid preifat i ehangu capasiti yn y sector preifat (o bosib trwy gyfrwng cynlluniau prydlesu). Awgrymodd un ymatebydd y gellid cynnal sioe deithiol Tai yn Gyntaf yng ngogledd Cymru, i ddenu rhagor o gomisiynwyr a chodi ymwybyddiaeth o'r model.

## PA UN PETH ALLAI DEWISIADAU TAI NEU ADRANNAU TAI YN EI WNEUD I SICRHAU BOD Y FLWYDDYN GYNTAF O BROSIECT TAI YN GYNTAF YN HAWS?

Holwyd ymatebwyr beth allai awdurdodau lleol ei wneud i sicrhau bod y flwyddyn gyntaf o brosiect Tai yn Gyntaf yn haws. Cynigiodd yr ymatebwyr nifer o awgrymiadau.

- Cydnabod pwysigrwydd dyrannu tai, yn ogystal â sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall egwyddorion Tai yn Gyntaf a'u bod yn ymrwymo iddynt ac yn eu gweithredu.
- Yn yr un modd, mae angen i asesiadau tai gael eu cwblhau mewn dulliau cyflymach a mwy hyblyg.
- Byddai cael llai o brosesau gweinyddol yma yn galluogi pobl i gael eu gosod yn gynt ar restrau aros am dai, a bod eiddo'n cael ei ddyrannu iddynt mewn modd mwy effeithiol.
- Gwnaeth un ymatebydd y sylw eu bod yn ei chael yn anodd i annog Cymdeithasau Tai i arwyddo Siarter Rheoli Tai yn Gyntaf (a ddatblygwyd gan Is-grŵp Rheoli Tai y Rhwydwaith Tai yn Gyntaf) yr oeddynt eisoes wedi cytuno iddo ar lafar.
- Gellid cynyddu cyfraddau budd-daliadau tai, i wella fforddiadwyedd eiddo ac arwain at ddewis ehangach o eiddo addas – yn hytrach na bod dim byd ar gael heblaw'r tai rhataf, isaf eu safon.

## OS GALLECH CHI GYNNIG UN ARGYMHELLIAD I RYWUN SY'N CYCHWYN AR BROSIECT TAI YN GYNTAF, BETH FYDDAI HYNNY?

Gofynnwyd i ymatebwyr gynnig un argymhelliad y bydden nhw'n ei wneud i eraill oedd yn cychwyn ar brosiect Tai yn Gyntaf. Cynigiwyd sawl syniad, yn cynnwys:

**BYDDWCH YN EOFN:** Byddwch yn eofn yn eich dull o weithio, yn hytrach na chydymffurfio neu gyfaddawdu i fodloni'r dulliau traddodiadol a ddefnyddir, o bosib, gan asiantaethau eraill. Trwy fod yn barod i herio dulliau felly o weithio, a chyfathrebu mewn ffordd onest, bydd yn haws i ddatblygu prynu-i-mewn strategol. Mae hyn yn bwysig, gan fod risg yn gysylltiedig â dibynnu ar unigolion yn y tymor hir, gan y gallent newid rôl neu adael y swydd.

**GWEITHIWCH MEWN FFORDD DRUGAROG:** Gweithiwch gyda chleientiaid mewn ffordd drugarog a phositif, a chydnabod bod pob sefyllfa'n wahanol.

**CADWCH NODIADAU:** Cadwch gofnod o bob gwers a ddysgwyd; bu hyn yn allweddol i un o'r ymatebwyr i osgoi ailadrodd problemau.

**COFIWCH - DEWIS A RHEOLAETH:** Dylid gofalu eich bod yn cofio pa mor bwysig yw dewis a rheolaeth ar ran y cleient wrth ddod o hyd i lety, er gwaethaf y diffyg darpariaeth o dai. Gallai cleientaid fod yn yr un eiddo am sawl blwyddyn, felly mae'n holl bwysig mai'r cleient sydd wedi ei ddewis, a bod yr eiddo o safon uchel.

## THEMÂU ALLWEDDOL DRWYDDI DRAW

Drwy gydol yr arolwg gyda'r darparwyr hyn, tynnwyd sylw at themâu allweddol a nodir uchod mewn adrannau ar wahân, ond sy'n cael eu crynhoi isod.

- Yr angen am ariannu dros gyfnod hirach.
- Yr angen i recriwtio ac ailhyfforddi'r bobl gywir.
- Yr angen am berthynas bositif gyda landlordiaid cymdeithasol a phreifat.
- Yr angen am ragor o eiddo addas.
- Yr angen am i randdeiliaid ddeall cynllun Tai yn Gyntaf a bod yn gefnogol iddo.
- Yr angen am brynu-i-mewn strategol gan yr holl randdeiliaid, yn hytrach na dibynnu ar unigolion.

# ARGYMHELLION YMARFER GORAU

Isod rhestrir rhai o'r argymhellion ymarfer gorau ar gyfer darparwyr, a'r holl randdeiliaid eraill:

## DYSGU GWERSI

Cadwch gofnod o'r gwersi a ddysgwyd, yn ogystal ag enghreifftiau o ymarfer gorau; dylai staff prosiect Tai yn Gyntaf ystyried cadw 'lòg gwersi' y gellir ei rannu gyda staff newydd a chydweithio arno.

## GORFODAETH RHENTU

Lle bo angen, gweithiwch gyda landlordiaid i sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd ymgysylltu â Rhentu Doeth Cymru.

## YMGYSYLLTU Â'R SIARTER

Gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol i'w hannog i arwyddo'r Siarter Rheoli Tai. Maes o law, bydd Cymorth Cymru a'r Is-grŵp Rheoli Tai yn darparu cymorth yn y maes hwn.

## CYLLID DROS Y TYMOR HIRACH

Dylai comisiynwyr, ynghyd â Llywodraeth Cymru, edrych ar ddulliau o ddarparu cyllid dros y tymor hirach, yn hytrach na chyllido blynyddol.

## LLINIARU HERIAU'N YMWNEUD Â THRAFNIDIAETH

Os yw'r prosiect Tai yn Gyntaf mewn ardal wledig, lle mae cysylltiadau trafnidiaeth yn anodd, mae'n bosib fod yna ddulliau arloesol o gyrraedd cleientiaid. Gallai cyllido hefyd helpu gydag ad-dalu costau teithio.

## CYMORTH CRYF, TRAWMA-WYBODUS I STAFF

Er mwyn cynyddu recriwtio a chadw staff, mae angen trefnu bod cymorth priodol ar gael ar gyfer staff (i helpu gydag achosion o drawma eilaidd neu ddirprwyol, yn unol ag egwyddorion Amgylcheddau Seicolegol-wybodus (PIE)). Mae angen i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Dylid ystyried dulliau eraill o wella perthnasoedd staff ac adeiladu tîm.

## PARATOI AR GYFER POBL SY'N ECSBLOETIO

Rhaid rhannu pob ymarfer gorau yng nghyd-destun yr arfer a elwir yn 'cuckooing' a llinellau sirol. Bellach, mae nifer o sefydliadau wedi delio â'r problemau hyn, a dylai rhanddeiliaid ddefnyddio cyfarfodydd Rhwydwaith Tai yn Gyntaf i rannu gwersi ac ymarfer gorau.

## PARHAU'N ONEST A THRYLOYW

Os am ddatblygu perthnasoedd hir-dymor rhwng staff a chleientiaid, mae angen cyfathrebu'n onest ac yn agored. Efallai y bydd yn rhaid rheoli disgwyliadau, ond yn y pen draw mae'n holl bwysig fod dewis y cleient yn cael ei barchu, fel eu bod yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywydau a'u cymorth. Oherwydd hynny, efallai bod angen i gleientiaid ddeall y bydd raid iddynt aros am lety yn yr ardal o'u dewis.

## RHOI CYNNIG AR BETHAU NEWYDD

Yn yr un modd, gall bod yn eofn ac yn barod i herio dulliau o weithio sy'n bodoli eisoes helpu i adeiladu perthynas gydag asiantaethau, sefydliadau neu unigolion eraill y mae angen iddynt fod ynghlwm mewn rhyw ffordd â darparu Tai yn Gyntaf. Peidiwch â derbyn dulliau traddodiadol, sydd wedi hen wreiddio – mae yna ddigon o dystiolaeth i ddangos bod Tai yn Gyntaf yn effeithiol, ac wrth i chi ddechrau adeiladu eich cynllun eich hun mewn cydweithrediad ag eraill, dylai hyn fod yn glir.

## RHANNU YMARFER GORAU

Dylid sefydlu sioeau teithiol Tai yn Gyntaf mewn ardaloedd ledled Cymru i rannu ymarfer gorau. Fel dewis arall, gallai'r cyfarfodydd gweithredol ar Tai yn Gyntaf mae Cymorth Cymru yn eu sefydlu hefyd ateb y pwrpas hwn – ac er y bydd y ffocws ar hyn o bryd ar y sefyllfa sydd ohoni gyda'r pandemig COVID-19, a'i effaith ar Tai yn Gyntaf, gallai'r cwmpas ymestyn ymhen amser.

## TAI FFORDDIADWY

Dylid archwilio cyfraddau budd-daliadau tai i wneud eiddo'n fwy fforddiadwy.

## CYFLENWAD O DAI

Er bod y pwynt hwn wedi cael ei wneud droeon, mae angen cynnydd yn y ddarpariaeth o dai sy'n wirioneddol fforddiadwy. Bydd Cymorth Cymru yn parhau i lobïo am hyn, ond dylai prosiectau anelu at weithio gyda chynifer o landlordiaid ag y bo modd, cyn belled â bod y landlordiaid yn deall yr egwyddorion ac yn ymrwymo iddynt. Yn yr un modd, gellid datblygu cysylltiadau gyda landlordiaid yn y sector rhentu preifat, lle bo hynny'n briodol.

## CYFATHREBU MEWNOL

I ddatblygu prynu-i-mewn strategol oddi wrth randdeiliaid, rhaid gweithio i sicrhau bod gwahanol aelodau o'r staff mewn sefydliadau yn deall Tai yn Gyntaf, a'u bod wedi derbyn tystiolaeth o'i effeithiolrwydd. Dewch â chynifer o bobl ag y bo modd atoch, gan ddatblygu perthnasoedd ar hyd y ffordd.

**AM YMHOLIADAU YNGHYLCH TAI YN GYNTAF, CYSYLLTWCH Â:**
**HOUSINGFIRST@CYMORTHCYMRU.ORG.UK**